Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

YSTADEGAU A PHAM YR YDYM YN EU DEFNYDDIO

www.welshwomensaid.org

Ystadegau a pham yr ydym yn eu defnyddio.

Mae CFC yn casglu ystadegau o'r holl wasanaethau cam-drin domestig a ddarperir gan y grwpiau sy'n aelodau o CFC, gan gynnwys lloches, cymorth fel y bo'r angen, allgymorth ac ailgyfanheddu.

Er mwyn ymgyrchu'n effeithiol a darparu gwybodaeth i asiantaethau'r llywodraeth a sefydliadau eraill sydd â diddordeb, mae Cymorth i Ferched Cymru yn ymrwymedig i ddarparu data grymus a chywir o'n cronfeydd data lloches cenedlaethol a'n Llinell Gymorth ein hunain, yn ogystal ag o gronfeydd data canoledig eraill gan gynnwys Arolwg Ystadegau Troseddu Prydain. Bob blwyddyn, mae Cymorth i Ferched Cymru yn lansio'r adroddiad Ystadegau Blynyddol yng nghwmni, ac o dan nawdd pedair plaid y llywodraeth.

Mewn dros 90% o ddigwyddiadau cam-drin domestig, mae plentyn yn bresennol neu mewn ystafell gyfagos.
Hughes (1992)

Mae 30% o gam-drin domestig yn cychwyn, neu'n gwaethygu, yn ystod beichiogrwydd.
Helton, et al, 1987)

www.welshwomensaid.org

O'r holl droseddau treisgar yr adroddir amdanynt, mae bron i 25% yn ymwneud â cham-drin domestig.
Y Swyddfa Gartref 2004

Bydd un o bob pedair merch yn dioddef cam-drin domestig yn ystod ei bywyd.
Y Swyddfa Gartref 1999

Yn 2007/08, cafodd 1505 o ferched lety mewn llochesau ar draws Cymru a chafodd 3000 o ferched eu cefnogi drwy brosiectau yn y gymuned.

Mae 13 miliwn digwyddiad gwahanol o drais corfforol neu fygwth trais corfforol yn erbyn merched gan eu partneriaid neu gyn-bartneriaid yn digwydd bob blwyddyn.
(Walby ac Allen, 2004)

Lladdir dwy ferch yr wythnos gan eu partner neu gyn-bartner yng Nghymru a Lloegr.
Adroddiad "Reducing Homicide" 2003 y Swyddfa Gartref

Mae 54% o'r achosion o drais rhywiol yn y DU yn cael eu cyflawni gan bartner presennol merch neu ei chyn-bartner. (Walby ac Allen, 2004)

Mae bron i 75% o'r plant sydd ar y gofrestr Amddiffyn Plant yn byw mewn cartrefi lle y ceir cam-drin.

Yr Adran Iechyd, 2002

Sut mae CFC yn defnyddio'r data a ddarperir gan y grwpiau sy'n aelodau?

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Defnyddir ystadegau i ddangos i'r Cynulliad Cenedlaethol bod yr angen am wasanaethau cam-drin domestig yn dal i fodoli, ac er mwyn nodi bylchau yn y ddarpariaeth o wasanaethau yn ogystal â nodi tueddiadau a darparu tystiolaeth i gyrff deddfwriaethol a chyllidwyr.

Ymchwil
Rydym yn darparu ystadegau i sefydliadau ac unigolion allanol sy'n cynnal ymchwil ym maes cam-drin domestig.

Ymgynghoriadau
Mae aelodau arbenigol o'r tîm cenedlaethol ac asiantaethau allanol yn defnyddio'r ystadegau i ymateb i ymgynghoriadau amrywiol, a defnyddir yr ystadegau i ymateb i geisiadau gan y cyfryngau hefyd.

Ymgyrchu a Cheisiadau am Gyllid
Gellir defnyddio'r data ystadegol a gesglir gennym i ymgyrchu'n fwy effeithiol dros gael adnoddau eraill.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:
Kirstie Pavey, Cydlynydd Ystadegau a'r Wefan

Mae merched mewn mwy o berygl o ddioddef trais difrifol neu gael eu llofruddio wrth iddynt adael partner treisgar neu ar ôl gadael partner treisgar.
Lees, 2000

Yn 2007/08, cafodd 1338 o blant lety mewn llochesau ar draws Cymru a chafodd dros 2500 o blant eu cefnogi drwy brosiectau yn y gymuned.

Cymorth i Ferched Cymru
38–48 Heol Crwys,
Caerdydd CF24 4NN

Ffôn 02920 390874
Ffacs 02920 390878
E-bost info@welshwomensaid.org.uk

www.welshwomensaid.org